

Hysbysiad preifatrwydd cynilwr ifanc



SWANSEA
BUILDING SOCIETY

Sefydlwyd 1923



Protected

Hysbysiad preifatrwydd cynilwr ifanc

Mae'r hysbysiad hwn yn dweud wrthyhych sut mae Swansea Building Society (ni) o 11/12 Stryd Cradock, Abertawe, SA1 3EW, yn casglu, storio a defnyddio gwybodaeth amdanoch chi fel eich enw neu ddyddiad geni. Rydym ni'n galw'r wybodaeth hon yn wybodaeth bersonol amdanoch. Gellir cael fersiwn hirach o'r hysbysiad hwn ar <http://www.swansea-bs.co.uk/about-swansea-building-society/privacy-information>

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr hysbysiad hwn, neu os ydych eisiau ymarfer unrhyw rai o'ch hawliau, cysylltwch os gwelwch yn dda â'n Swyddog Diogelu Data, naill ai drwy ysgrifennu atom yn 11/12 Stryd Cradock, Abertawe, SA1 3EW neu drwy e-bost ar dpo@swansea-bs.co.uk.

Pa wybodaeth bersonol fyddwn ni'n ei gasglu amdanoch chi?

Byddwn ni'n casglu'r wybodaeth ganlynol:

- Eich enw, manylion cyswllt, cyfeiriad ac weithiau fanylion am eich iechyd;
- Eich dyddiad geni a / neu oedran a chenedligrwydd;
- Cofnodion ynglŷn â sut rydych chi'n defnyddio'r cyfri, felly manylion arian a dalwyd i mewn neu a dynnwyd allan.
- Cofnodion ynghylch sut rydych chi wedi cysylltu â ni: a
- Gwybodaeth am rieni / neiniau a theidiau / gwarcheidwaid sy'n gallu tynnu arian o'r cyfrif.

Pam fod angen i ni gasglu eich gwybodaeth bersonol?

Rydym ni'n defnyddio eich gwybodaeth bersonol i:

- Gadarnhau pwy ydych chi pan fyddwch chi'n agor cyfrif neu'n cysylltu â ni;
- Rheoli a gofalu am eich cyfrif(on) gyda ni;
- Rhoi gwybodaeth i chi rydych chi wedi gofyn i ni amdano o ran newidiadau i'n cynnyrch / gwasanaethau;

Fe allwn ni ddefnyddio gwybodaeth amdanoch chi i greu adroddiadau sy'n dweud wrth bobl am y nifer cyfrifon a / neu gwsmeriaid, er enghraifft y niferoedd cyfrifon cynilwr ifanc sydd gennym neu oedran cyfartalog ein cynilwyr. Enw gwybodaeth o'r fath yw dadansoddi ystadegol, ond ni ellir mo'i ddefnyddio i'ch adnabod chi.

O ble fyddwn ni'n casglu eich gwybodaeth bersonol?

Byddwn ni'n casglu eich gwybodaeth bersonol yn uniongyrchol oddi wrthyhych chi neu eich rhieni (er enghraifft, pan fyddwch chi'n cwblhau ffurflen gais neu'n cysylltu â ni). Heb yr wybodaeth hwn, ni fyddem ni'n gallu agor eich cyfrif.

Cadw mewn cyswllt â chi

Mae angen eich manylion cyswllt arnom er mwyn i ni allu dweud wrthyhych am wybodaeth bwysig am eich cyfrifon. Dywedwch wrthym os gwelwch yn dda os yw eich gwybodaeth yn newid, neu fel arall efallai y bydd angen i ni rannu eich gwybodaeth ag eraill er mwyn ein helpu i ddod o hyd i chi.

Beth yw ein rhesymau cyfreithiol dros gasglu a defnyddio eich gwybodaeth bersonol?

Dim ond os oes gennym reswm cyfreithiol dros wneud hynny y gallwn ni gasglu a defnyddio eich gwybodaeth bersonol. Ein rhesymau yw:

- Er mwyn agor a rheoli eich cyfrif;
- Pan fydd y gyfraith yn dweud wrthym fod yn rhaid i ni ddefnyddio eich gwybodaeth;
- Pan fydd gennym reswm go iawn am fod â'i angen;
- Pan fyddwch chi neu eich rhieni / neiniau a theidiau / gwarcheidwaid wedi dweud y gallwn ni.

A yw eich gwybodaeth bersonol yn cael ei hanfon y tu allan i'r Deyrnas Unedig?

Byddwn ni'n cadw eich gwybodaeth yn y DU ac ni fyddwn ni'n ei rhannu â neb arall. Os oes problem gyda'ch cyfrif efallai y bydd angen i ni adael i'n harbenigwyr TG (IT) a leolir y tu allan i'r DU (yn India ar hyn o bryd) edrych ar eich gwybodaeth, ond gwnawn yn siŵr fod eich gwybodaeth bersonol yn cael ei chadw'n ddiogel bob amser.

Am faint o amser fyddwn ni'n cadw eich gwybodaeth bersonol?

Ar y cyfan, byddwn ni'n cadw eich gwybodaeth gydol yr amser y bydd gennych chi gyfrif gyda ni, ac am chwe blynedd ar ôl i'ch cyfrif gael ei gau. Fe allwn ni gadw eich gwybodaeth am fwy na hyn os yw'r gyfraith yn dweud fod yn rhaid i ni, neu ble bydd angen yr wybodaeth arnom i ofalu am ein hawliau cyfreithiol. Fe allwn hefyd gadw manylion cyffredinol am y math o gyfrif oedd gennych a sut ddefnydd a wnaed ohono i bwrsasau adrodd yn ôl.

Eich hawliau

O dan ddeddfau diogelu data, mae gennych chi hawl i ofyn i ni i:

- Gywiro unrhyw wybodaeth bersonol sy'n anghywir;
- Stopio defnyddio eich gwybodaeth bersonol am rai rhesymau;
- Dileu eich gwybodaeth bersonol mewn rhai amgylchiadau;
- Rhoi copïau o'ch gwybodaeth bersonol i chi.

Ni fydd pob un o'r hawliau hyn yn berthnasol o dan bob amgylchiad. Cysylltwch â'n Swyddog Diogelu Data os gwelwch yn dda os dymunwch ymarfer unrhyw un o'r hawliau hyn. Os ydych chi'n anfodlon â'r modd yr ydym ni'n trin eich gwybodaeth bersonol, cysylltwch os gwelwch yn dda â'r Swyddog Diogelu Data yn y lle cyntaf a gwnawn ein gorau i ddatrys eich cynw. Mae gennych hawl i gwyno hefyd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef y rheoleiddiwr ar gyfer cyfreithiau diogelu data:
<https://ico.org.uk/>



SWANSEA

BUILDING SOCIETY

Sefydlwyd 1923

www.swansea-bs.co.uk

SBS (CYSPN 1021)

Awdurdodir Swansea Building Society
gan yr Awdurdod Rheoleiddio Ariannol a'i
reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad
Ariannol a'r Awdurdod Rheoleiddio
Ariannol. Rhif Cofrestr Gwasanaethau
Ariannol: 206066

Prif Swyddfa

11-12 Stryd Cradock, Abertawe SA1 3EW
01792 739100 | swansea@swansea-bs.co.uk

Caerfyrddin

13-14 Heol Awst, Caerfyrddin SA31 3AQ
01267 611950 | carmarthen@swansea-bs.co.uk

Y Bont-faen

75 Stryd Fawr, Y Bont-faen, CF71 7AF
01446 506000 | cowbridge@swansea-bs.co.uk

Y Mwmbwls

496 Heol Mwmbwls, Abertawe SA3 4BX
01792 739200 | mumbles@swansea-bs.co.uk

Abertawe

1-4 Stryd Portland, Abertawe, SA1 3DH
01792 739100 | swansea@swansea-bs.co.uk